# Fayezah **Sayed**

***Teitl Swydd:*** *Actiwari dan Hyfforddiant, KPMG, Leeds*
***Cymwysterau:*** *BSc mewn Mathemateg (Prifysgol Leeds)*

**Roedd fy rhieni eisiau i mi wneud meddygaeth yn y brifysgol ond bu i mi eu hargyhoeddi fy mod wirioneddol eisiau gwneud mathemateg gan ei fod yn bwnc yr oeddwn yn ei garu. Roedd fy rhieni'n poeni am fy rhagolygon swydd posib gyda gradd mathemateg ond, ar ôl gwneud ychydig o ymchwil, canfûm fod nifer fawr o opsiynau i rywun gyda'r cefndir hwn.**

Wrth i mi fynd drwy fy ngradd gyntaf, canfûm fod gen i fwy o ddiddordeb mewn mathemateg gymwysedig na mathemateg bur. Ond roeddwn yn gweithio rhan amser mewn gweinyddiaeth ariannol i Topshop tra'r oeddwn yn astudio ac roeddwn yn hapus iawn pan gefais radd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf!

Euthum at wasanaeth gyrfaoedd y brifysgol a hefyd i ffeiriau gyrfaoedd amrywiol i gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud nesaf. Roedd ychydig o gystadleuaeth am swyddi ond mae cyflogwyr yn gwybod os ydych yn ddiffuant ac os oes gennych yr angerdd ar gyfer y swydd yno. Chwaraeodd fy angerdd ar gyfer mathemateg ran fawr wrth i mi gael fy swydd bresennol fel actiwari dan hyfforddiant yn KPMG.

Yn fy maes penodol i, mae'r actiwarïaid yn edrych ar elw a cholled cwmni ac yn defnyddio mathemateg i broffwydo dyfodol ariannol y cwmni drwy ddefnyddio llawer o gyfrifiadau a graffiau.

Mae symud i fyd gwaith wedi bod yn brofiad rhyfedd ond diddorol iawn. Mae gweld defnydd gwirioneddol o'r fathemateg y gwneuthum ei hastudio wedi bod yn wych. Mae llawer o hyblygrwydd hefyd. Gallaf ddewis newid lleoliad swyddfa os wyf eisiau gwneud hynny.

Rwyf yn defnyddio llawer o sgiliau mathemategol, ond mae hefyd angen i mi defnyddio llawer o sgiliau cymdeithasol. Rhaid i mi allu esbonio damcaniaethau cymhleth i rychwant



*"Mae gweld defnydd gwirioneddol o'r fathemateg y gwneuthum ei hastudio wedi bod yn wych."*

eang o bobl. Mae llawer o waith tîm hefyd yn fy ngwaith sy'n creu awyrgylch gwaith anffurfiol a braf.

Gwneuthum lawer o kickboxing yn y brifysgol. Rwyf hefyd yn mwynhau nofio, badminton a ffilmiau. Un o fy mhrif ddiddordebau yw celf. Rwyf wedi gwneud llawer o baentio ac rwyf yn hoffi gwneud fframiau lluniau a chardiau Nadolig.

# Fayezah **Sayed**

***Job Title:*** *Trainee Actuary, KPMG, Leeds*
***Qualifications:*** *BSc Mathematics (University of Leeds)*

**My parents wanted me to do medicine at university but I convinced them that I really wanted to do maths because it was the subject which I loved.**

My parents were worried about my potential job prospects with a maths degree but, after doing some research, I found that there was a huge number of options for someone with this background. As I went through my undergraduate degree, I found myself being more interested in applied maths than pure maths. I worked part-time in financial admin for Topshop while I was studying and I was delighted when I graduated with a First Class Honours degree!

I went to the university careers service and also to various careers fairs to get more information on what to do next. There was some competition for jobs but employers know when you are genuine and when your passion for the job is there. My passion for maths definitely played a big part in getting my current job as a trainee actuary at KPMG.

In my particular area, the actuaries look at the profits and losses of a company and use maths to predict the financial future of the company using lots of calculations and graphs.

It has been a bit strange moving into the world of work but very interesting. Actually seeing the application of the maths which I studied has been great. There is a lot of flexibility too. I can choose to switch office location if I want to.

I use a lot of mathematical skills but I also need to use a lot of social skills. I need to be able to explain complicated theories to a wide range of people.



*"Actually seeing the application of the maths which I studied has been great."*

There is also a lot of team work involved in my work which makes a nice informal working atmosphere.

I did a lot of kickboxing at university. I also enjoy swimming, badminton and films. One of my main interests is art. I have done a lot of painting and I like to make photo frames and Christmas cards.